



**Partneriaeth Natur Sir Gaerfyrddin -
Adroddiad ar Weithredu
Ionawr - Rhagfyr 2021**



Rhagarweiniad

Mae Partneriaeth Natur Sir Gaerfyrddin yn cynnwys nifer o bartneriaid sydd â gwybodaeth, profiad a brwdfrydedd helaeth ynghylch bioamrywiaeth y sir. Fe'i hwylusir gan Swyddog Bioamrywiaeth y Cyngor ac mae wedi'i sefydlu ers dros 20 mlynedd.

Mae Sir Gaerfyrddin yn cynnal cymysgedd cyfoethog o wahanol [gynefinoedd](#) sy'n ffurfio ein tirweddau, y dylanwadwyd ar y rhan fwyaf ohonynt gan hanes hir o weithgarwch dynol ac arferion rheoli tir. Pa un a ydynt dros ardaloedd mawr neu fach, mae pob un o'n cynefinoedd amrywiol, a'r rhywogaethau sy'n byw ynddynt, yn ychwanegu at gyfoeth bioamrywiaeth yn Sir Gaerfyrddin. Maent i gyd yn cyfrannu i'n profiad o fyw yma a hefyd i economi'r sir, i iechyd a llesiant ein dinasyddion, i'r ddarpariaeth bwyd, dŵr ac aer glân ac i'n diwylliant lleol. Mae amgylchedd naturiol iach yn rhan hanfodol o Sir Gaerfyrddin gynaliadwy, gadarn ac unigryw.

Dangosodd y rhaglen ymchwil [Coronafeirws: Iechyd meddwl yn y Pandemig](#) fod treulio amser yn yr awyr agored wedi bod yn un o'r ffactorau allweddol sy'n galluogi pobl i ymdopi â straen y pandemig ac, yn gynyddol, fod gweithredu cymunedol yn ceisio rheoli ardaloedd o ran natur. Yn aml, mae'r manteision i'r grwpiau sy'n gweithredu yr un mor arwyddocaol â'r manteision bioamrywiaeth a gallant ysgogi gweithredu lleol pellach. Yn ddiweddar, lluniodd [Forest Research](#) adroddiad a oedd yn dangos bod llwybrau coetir yn arbed £13 miliwn y flwyddyn i Gymru o ran costau iechyd meddwl (yn seiliedig ar brisiau 2020).

Ond nodwyd yn adroddiad [Sefyllfa Byd Natur: Cymru 2019](#) fod newid sylweddol wedi bod ym mywyd gwyllt Cymru yn ystod y degawdau diwethaf, a bod tystiolaeth o ddirywiad cyffredinol yn yr amrywiaeth o rywogaethau ac yn hyd a lled cynefinoedd naturiol a lled-naturiol. Gwir y gair yn Sir Gaerfyrddin.

Ar 30 Mehefin 2021, datganodd y Senedd Argyfwng Natur yng Nghymru a chydabod bod cysylltiad anorfod rhwng argyfyngau natur a'r hinsawdd. Mae hyn yn atgyfnerthu datganiad y Senedd o Argyfwng Hinsawdd yn 2019. Cadarnhaodd Llywodraeth Cymru ei bod yn bwriadu sefydlu corff gwarchod amgylcheddol annibynnol i Gymru a bydd yn edrych ar dargedau bioamrywiaeth yng nghyd-destun fframwaith bioamrywiaeth byd-eang y Cenhedloedd Unedig a fframwaith y DU, sy'n cael eu datblygu.

Mae adroddiad rhynglywodraethol 2019 (asesiad [IPBES](#) 2019) hefyd wedi dangos y gydberthynas gref rhwng newid yn yr hinsawdd, colli bioamrywiaeth a llesiant dynol. Dylai unrhyw fframwaith lleol ar gyfer mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd ystyried yr effaith ar fioamrywiaeth Sir Gaerfyrddin, a hefyd ystyried sut gall ein hamgylchedd naturiol helpu i liniaru newid yn yr hinsawdd ac addasu iddo. Ni allwn ddatrys bygythiadau newid yn yr hinsawdd o achos gweithgarwch dynol ar yr un llaw a cholli bioamrywiaeth ar y llaw arall. Rydym naill ai'n datrys y ddau beth neu ddim un ohonynt.

Mae gwaith y partneriaid, a'r prosiectau maent yn ymgymryd â nhw, yn arwain at ganlyniadau sy'n helpu i warchod a gwella ein hamgylchedd naturiol, ac yn aml at fanteision lawer sy'n gwella llesiant y bobl sy'n byw yma. Mae eu gwaith yn cyfrannu at amcanion a chanlyniadau nifer o gynlluniau cenedlaethol a lleol, sydd â nodau ar gyfer yr amgylchedd naturiol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- [Cynllun Adfer Natur Sir Gaerfyrddin](#) sy'n cyfrannu at y strategaeth fioamrywiaeth genedlaethol a'r cynllun gweithredu dros Gymru sy'n gweithio tuag at wrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth yng Nghymru a gwella cadernid ein hecosystemau.
- [Amcanion Llesiant](#) Cyngor Sir Gaerfyrddin a [Chynllun Llesiant](#) Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Gaerfyrddin.

Hefyd mae [Deddf yr Amgylchedd \(Cymru\) 2016](#) yn pennu dyletswydd i gynllunio ac i reoli ein hadnoddau naturiol. Mae hyn yn cynnwys dyletswydd i'w gwneud yn ofynnol i'r holl gyrrff cyhoeddus, wrth iddynt arfer eu swyddogaethau, geisio 'cynnal a gwella bioamrywiaeth' pan fo hynny'n rhan o'u swyddogaethau cymwys a cheisio 'hyrwyddo cadernid ecosystemau'. Mae'r Cyngor wedi paratoi Blaen-gynllun i ddangos sut y bydd yn ymgorffori'r ddeddfwriaeth hon wrth ddarparu ei wasanaethau, ac adroddwyd ynghylch hyn i Lywodraeth Cymru.

Mae Partneriaethau Natur Lleol yn ddull cyflawni allweddol sy'n gallu helpu i ddarparu ffocws lleol a chyflawni'r holl amcanion hyn. Yn 2022, mae'n gobeithio llunio adroddiad Sefyllfa Byd Natur ar gyfer Sir Gaerfyrddin.

Gall pobl leol wneud gwahaniaeth hefyd ac mae gan yr holl bartneriaid rôl i'w chwarae o ran codi ymwybyddiaeth a gweithio gyda chymunedau ar brosiectau sy'n fanteisiol i fioamrywiaeth - a'r bobl sy'n cymryd rhan ynddynt.

Crynodeb yw hwn o rai o gyflawniadau'r partneriaid yn 2021, a hynny gan gydweithio'n aml, o ran gwarchod a gwella'r ystod helaeth o gynefinoedd a rhywogaethau sydd yn Sir Gaerfyrddin.

PARTNERIAETH NATUR SIR GAERFYRDDIN



Eleni dechreuodd **Ymddiriedolaeth Adar y Gwlyptir** ei phrosiect Morlynnoedd Llanelli a ariannwyd gan Gynllun Rheoli Cynaliadwy Cyfoeth Naturiol Cymru. Bydd y gwaith yn creu cynefin gwlyptir newydd ac yn gwella'r morlynnoedd hallt a dŵr croyw yn Ymddiriedolaeth Adar y Gwlyptir Llanelli, gyda'r gobaith y bydd yn denu rhagor o rywogaethau gwlyptir drwy gydol y flwyddyn, gan gynnwys adar sy'n nythu ar y ddaear. Bydd gwaith ar y morlyn dŵr croyw yn creu ac yn gwella cynefinoedd gwlyptir er budd adar dŵr a bywyd gwyllt arall. Mae'r morlynnoedd hallt yn safle clwydo a bwydo diogel ar gyfer poblogaethau adar sy'n bwysig yn rhyngwladol sy'n defnyddio Cilfach Tywyn. Bydd y gwelliannau i gynefinoedd, sydd i'w gweld o bedair cuddfan wyllo wahanol, yn helpu i ddarparu mwy o ddi-ddordeb o ran bywyd gwyllt i ymwelwyr drwy gydol y flwyddyn, a bydd byrddau dehongli newydd yn helpu i ennyn diddordeb ymwelwyr. Bydd creu System Trin Gwlyptir newydd, sy'n cynnwys corslwyni a thrap silt, yn gwella ansawdd y dŵr sy'n dod i mewn i'r morlyn.



@MJ224

Llun o'r awyr o brosiect Morlynnoedd Llanelli yn Ymddiriedolaeth Adar y Gwlyptir © Mark Johnson

Yn ogystal â Pharc Gwledig Pen-bre, sy'n boblogaidd iawn, mae **Gwasanaeth Hamdden Awyr Agored** y cyngor yn rheoli 12 safle arall. Ym Mharc Gwledig Llyn Llech Owain mae cyllid o gronfa Tasglu'r Cymoedd (drwy Barc Rhanbarthol y Cymoedd) wedi galluogi gwaith i wella mynediad ac i ddarparu gorsaf bwydo bywyd gwyllt ar gyfer y gaeaf. Mae cyllid gan Bartneriaeth Natur Leol Cymru yn darparu man pilcota mewn pyllau ar gyfer ysgolion.



Gwirfoddolwr yn gweithio yng Ngwarchodfa Natur Leol Twyni Pen-bre

Mae grant Rhwydweithiau Natur gan Lywodraeth Cymru yn cefnogi'r gwaith o adfer rhostir sych a gwlyb yn Ardal Cadwraeth Arbennig Cernydd Carmel yn y parc gwledig. Bydd defnyddio merlod mynydd Cymreig i bori yn help mawr gyda'r gwaith adfer hwn.

Mae Gwarchodfa Natur Leol Twyni a Morfa Pen-bre wedi'i hymestyn, gan ganiatáu i ragor o gynefinoedd y twyni gael eu rheoli - bydd defaid Morgannwg yn pori'r ardaloedd hyn.

Yn Mharc Coetir y Mynydd Mawr, gobeithio bydd cais am Grant Coetiroedd Cymunedol Cronfa Dreftadaeth y Loteri yn caniatáu i waith gael ei wneud i reoli'r nodweddion coetir a gwlyptir ar y safle poblogaidd hwn.

Er gwaethaf y cyfyngiadau, mae ysgolion wedi gallu ymweld â safleoedd ac mae gwirfoddolwyr wedi bod yn brysur iawn gyda'r tîm cadwraeth yn darparu dros 400 awr o amser gwirfoddoli gwerthfawr i'r Gwarchodfeydd Natur Lleol ers mis Mai 2021.

Dros y 12 mis diwethaf mae un o brosiectau **Menter ar gyfer Cadwraeth Natur Cymru** wedi bod yn gweithio gyda thirfeddianwyr lleol a chymunedau yn Nyffryn Aman i sicrhau mwy o ymwybyddiaeth o'r bywyd gwylt y mae pobl yn rhannu eu dyffryn ag ef. Mae'r prosiect **Adnabod eich Cymdogion** wedi cynnwys cyfuniad o ddigwyddiadau bywyd gwylt cymunedol ochr yn ochr ag arolygon ecolegol arbenigol ac mae wedi arwain at wneud cannoedd o gofnodion ynghylch rhywogaethau newydd yn y ddwy ganolfan gofnodion leol sy'n cwmpasu'r ardal. Mae cynllun benthycia trapiau gwyfynod Menter ar gyfer Cadwraeth Natur Cymru ar gyfer y dyffryn wedi cael croeso arbennig o dda gan wirfoddolwyr lleol ac mae nifer o bobl bellach yn cofnodi gwyfynod yn rheolaidd.



Gwirfoddolwr yn Nyffryn Aman gyda thrap gwyfynod.

Yng Ngwarchodfa Natur Coed y Castell yn Llandeilo, mae **Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru** wedi cael cefnogaeth gan brosiect Dyffryn Tywi (sy'n cefnogi dulliau cynaliadwy o reoli tir yng nghanol Dyffryn Tywi). Mae'r prosiect wedi galluogi brechu'r moch daear sy'n byw yno rhag TB buchol (bTB). Eleni roedd 17 o foch daear wedi'u dal a'u brechu, gan ddiogelu'r unigolion hyn a lleihau'r siawns o ledu bTB. Roedd y prosiect hefyd yn ariannu ffens newydd yng Nghoedwig Porthdy'r De lle gosodwyd pyst a rheiliau castanwydd hollt (gweler y llun ar y dde). Hyfforddwyd pedwar o bobl yn y math traddodiadol hwn o ffensio wrth ei gosod. Ariannwyd gwaith hefyd i reoli rhododendron drwy'r prosiect a threuliodd grŵp gwirfoddol ddyddiau'n rheoli lledaeniad Jac y Neidiwr ac yn cadw'r rhwydwaith llwybrau troed ar agor. Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd yn gweithio gyda Chymdeithas Saethu a Chadwraeth Prydain i ddeall yn well effeithiau gwiwerod llwyd a cheirw ar goed ac iechyd y coetir.



Ffens newydd yng Nghoedwig Porthdy'r De, Llandeilo

Prif nod **Grŵp Dolydd Sir Gaerfyrddin** yw helpu rheolwyr glaswelltir a thirfeddianwyr i wella bioamrywiaeth ar eu safleoedd. Un o'r ffyrdd o wneud hyn yw drwy annog pobl i gyfnewid gwybodaeth a chanlyniadau profi a methu, fel y bydd yr arferion gorau wedi hen ennill eu plwyf ymhlith perchnogion a rheolwyr dolydd. Mae'r pandemig Covid wedi cyfyngu ar weithgareddau'r grŵp, ond mae wedi parhau i gyfarfod ar-lein, a chafwyd sgysiau ar-lein ysbrydoledig yn ystod yr hydref a'r gaeaf, sydd i gyd bellach ar gael i'w gwyllo ar [sianel YouTube Grŵp Dolydd Sir Gaerfyrddin](#). Pan ganiatawyd hynny, cafwyd rhai ymweliadau safle, gan gynnwys taith i Ardd Fotaneg Genedlaethol Cymru i weld canlyniadau'r arbrofion gwair gwyrdd yno.



Aelodau o Grŵp Dolydd Sir Gaerfyrddin ar ymweliad safle â Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru

Hefyd, yn 2021, trefnodd y grŵp "Chwilfa Fawr y Dolydd" i annog cofnodi rhywogaethau ar laswelltiroedd. Anfonwyd

cofnodion (dros 2,500 ohonynt) o 76 safle mewn 14 sir (8 yng Nghymru a 6 yn Lloegr) a chofnodwyd 327 o rywogaethau. Erbyn hyn, mae gan Chwilfa Fawr y Dolydd ei thudalen Facebook ei hun yn ogystal â thudalen a gwefan gyffredinol Grŵp Dolydd Sir Gaerfyrddin. Bydd yr astudiaeth hon yn cael ei chynnal unwaith eto yn 2022.

Roedd hi'n flwyddyn brysur arall i **Brosiect Britheg y Gors Caeau'r Mynydd Mawr**. Roedd gwaith ffensio a rheoli prysgwydd ar safle prosiect newydd yn golygu bod modd ailgyflwyno pori yno, ac yna canfuwyd brithegion y gors a nyth pathew yno yr haf hwn. Hefyd cynhaliodd y prosiect ddigwyddiad i randdeiliaid a oedd yn cynnwys taith gerdded a sgwrs o amgylch caeau un o dirfeddianwyr y prosiect, ac yna te a chacennau pili-pala (gweler y llun ar y dde)!

Bellach mae swyddog y prosiect hefyd yn gweithio gyda chydweithwyr yn y Cyngor i reoli prosiectau lliniaru ar ran datblygwyr yn y sir. Ym mharc adwerthu Gorllewin Cross Hands, mae contractwyr wedi rheoli Jac y Neidiwr a Chlymrog Japan; cael gwared â choed prysgwydd; torri a chasglu ardal o laswelltir oedd wedi gordyfu ac o ymylon ffyrdd; gosod ffensys terfyn a byddant hefyd yn gwneud ychydig o waith rheoli coetiroedd y gaeaf hwn. Yn ogystal, roedd un o safleoedd prosiect Caeau'r Mynydd Mawr yn safle derbyn ar gyfer tyweirch a drawsleolwyd o safle datblygu yn Nhŷ-croes.

I **Gymdeithas Fotanegol Prydain ac Iwerddon** roedd canslo wythnos cofnodi botanegol Glynhir am yr ail flwyddyn yn olynol oherwydd Covid yn rhwystredig. Mae'n cynnig profiad ardderchog i ddatblygu sgiliau adnabod botanegol gyda chymorth arbenigwyr. Gobeithio y bydd yn aildechrau yn 2022. Fodd bynnag, cyflwynwyd rhai uchafbwyntiau cofnodi i gofnodydd planhigion y sir i ychwanegu at fflora'r sir sy'n cael ei baratoi, gan gynnwys: safle newydd ar gyfer penigan y porfeydd (a ddiogelir o dan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981) yng ngogledd-orllewin y sir; safle newydd ar gyfer cegiden bibellaidd (rhywogaeth â blaenoriaeth yng Nghymru) yn Sanclêr (gweler y llun ar y dde), 13 sbrigyn blodeuol o degeirian nyth aderyn a ganfuwyd yng Ngwarchodfa Natur Genedlaethol Coedwig Carmel – cofnod newydd ar gyfer y safle hwn, a darn mawr o gnwp-fwsogl corn carw yng Ngwaith Plwm Nant-y-mwyn, Rhandir-mwyn, yn ystod taith gerdded Cymdeithas Mynyddoedd Cambria. Yn y gorffennol, dim ond darnau ar wahân o'r rhywogaeth hon sydd wedi'u canfod ar y safle hwn. Mae'r rhain yn dangos bod cofnodion newydd yn dal yn bosibl ar safleoedd a oedd wedi'u cofnodi'n dda o'r blaen, ac mae safleoedd heb eu cofnodi o hyd yn Sir Gaerfyrddin lle mae pethau annisgwyl. Mae cofnodi gan wirfoddolwyr yn weithgaredd amhrisiadwy yn y sir.



Te a chacennau pili-pala i'r rhai a ddaeth i ddigwyddiad ar gyfer Prosiect Brithegion y Gors Caeau'r Mynydd Mawr



Cegiden Bibellaidd © R. Pryce

Mae Llwybr Glan yr Afon Sanclêr, o ganlyniad i broblemau parhaus o ran erydiad a llifogydd, yn cael ei ailosod gan **Gyngor Sir Caerfyrddin**.

Gan weithio gyda chydweithwyr yn Is-adran Teithio Llesol y Cyngor, mae'r Adain Gadwraeth yn datblygu prosiect i reoli'r cynefin yn y gorlifdir yno fel gwarchodfa natur ar gyfer bywyd gwylt a chynefinoedd gwlyptir pwysig, gan obeithio cynyddu'r mwynhad i bobl leol ar hyd y Llwybr poblogaidd hwn. Dangosodd arolwg ecolegol fod y safle o ddiddordeb ecolegol mawr iawn, gan gynnwys cofnod newydd ar gyfer y gegiden bibellaidd brin, teloriaid, glas y dorlan a'r giach. Defnyddir Afon Cynin yma gan ddyfrgwn fel llwybr teithio rhwng y system dŵr croyw a safleoedd bwydo aberol, a bydd rheoli'r cynefinoedd yma a chreu cynefin gorchudd, fel gwelyau cyrs, yn helpu'r rhywogaeth hon a warchodir.

Mae pob ward yn y sir yn cyfrannu at y rhwydwaith cyfoethog ac amrywiol o gynefinoedd bywyd gwylt sy'n nodwedd o'r sir, boed hynny'n goetiroedd, yn laswelltiroedd, yn berthi, yn afonydd neu'n erddi.

Cafodd **Partneriaeth Natur Sir Gaerfyrddin** gyllid yn 2020/21 gan Lywodraeth Cymru drwy brosiect Partneriaeth Natur Leol Cymru i greu proffiliau Bywyd Gwylt yn eich Ward yn Sir Gaerfyrddin, a hynny er mwyn tynnu sylw at yr amgylchedd naturiol ym mhob ward yn y sir. Cafodd y proffiliau eu creu mewn partneriaeth â **Chanolfan Wybodaeth Bioamrywiaeth Gorllewin Cymru** a ddarparodd data a mapiau i helpu i strwythuro'r proffiliau. Roedd y proffiliau'n cynnwys:

- Uchafbwyntiau'r rhywogaethau ym mhob ward
- Gwybodaeth ynghylch sut i gymryd rhan ac i helpu i warchod y bywyd gwylt yn lleol
- Sut i gofnodi rhywogaethau
- Safleoedd o ddiddordeb arbennig ym mhob ward
- Safleoedd a llwybrau cerdded lleol i'w harchwilio

Mae dolenni yn y proffiliau yn helpu darllenwyr i gael rhagor o wybodaeth ac i weithredu'n lleol.

Dros y blynyddoedd, mae tywod agored wedi diflannu i raddau helaeth o dwyni tywod Cymru, ac wedi'i ddisodli gan laswellt trwchus a phrysgwydd. Mae'r newid hwn wedi'i achosi gan ffactorau megis cyflwyno planhigion anfrodorol, lefelau pori is, newid yn yr hinsawdd a llygredd aer. Wrth i'r twyni ddod yn fwy sefydlog a thyfu'n wyllt, mae bywyd gwylt prin wedi dirywio. Mae'r prosiect Twyni Byw o dan arweiniad Cyfoeth Naturiol Cymru yn brosiect cadwraeth a ariennir gan yr UE sy'n ceisio adfywio twyni tywod ar draws 10 o safleoedd yng Nghymru. Mae'r prosiect yn gweithio'n lleol i wneud gwaith cadwraeth



Caeau llwybr glan yr afon Sanclêr - gwarchodfa natur leol newydd?

Wildlife in your Ward – Cilycwm

Partneriaeth Natur
Local Nature Partnerships
Nature Partnership

The Carmarthenshire Nature Partnership has produced this profile to highlight some of the wildlife, habitats, and important sites in your local area. Carmarthenshire is justly celebrated for the variety within its natural environment, from the uplands in the north-east of the county to our magnificent coastline. Every ward contributes to the rich and varied network of wildlife habitats that make up the county, whether that be woodlands, grasslands, hedgerows, rivers or gardens. There are still gaps in our knowledge about Carmarthenshire's natural environment and the wildlife it supports. Despite having a wealth of data, some species and pockets of special habitats remain unrecorded and unmapped. There is always more to find out. Wildlife and our natural environment reflect local culture and past human activity. We see this in the field and hedgerow patterns in our agricultural landscapes, and in areas previously dominated by industry where, today, new habitats develop on abandoned land. And our farm, house and street names provide clues to the history of our natural environment. The mosaic of habitats in Cilycwm make up an ecological network. If these habitats are well managed, are well connected and are sufficiently extensive, they will support a diversity of species and help to make a resilient natural environment. A resilient natural environment supports wildlife and provides a range of ecosystem services, e.g. agricultural products, pollinators, timber, drinking water, regulation of floods and soil erosion, carbon storage and recreation and inspiration. Find out more at: <https://bit.ly/3uazhnp>

We hope it you will find this profile interesting and that it might encourage you to explore your local area and record what you see. There are links in the profile that will help you to find out more and take action locally.

Thank you to all those in Cilycwm ward who have already sent information and photos. These profiles can be updated so please continue to send us information about the Wildlife in your Ward.

Funded by Welsh Government through the Local Nature Partnership Cymru project.
Produced by Carmarthenshire County Council as part of the Carmarthenshire Nature Partnership
For further information please contact: Biodiversity@carmarthenshire.gov.uk

Partneriaeth Natur
LOCAL NATURE PARTNERSHIPS
CYMRU

Cyngor Sir Gaerfyrddin
Carmarthenshire County Council

pwysig yn Nhwyni Pen-bre. Ar ôl cynllunio'r prosiect gyda rheolwyr y warchodfa o Gyngor Sir Caerfyrddin, roedd gwaith y gaeaf yn Nhwyni Pen-bre yn cynnwys creu tri bwllch – neu fylchau ym mlaen y twyni (gweler y llun ar y dde) – a thynnu glaswellt o ardaloedd o laswelltir twyni a llaciau twyni isel i ddatgelu tywod noeth. Dylai'r gwaith hwn helpu i roi hwb i ychydig o fywyd gwylt twyni mwyaf prin Cymru sy'n dibynnu ar gynefin tywod noeth a hefyd dylai gynyddu symudiad naturiol tywod yn y twyni.

Ar ran wahanol o'r safle, mae Dynamic Dunescapes, sef prosiect ledled y DU a gefnogir gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol a Rhaglen LIFE yr UE i helpu cynefinoedd twyni tywod, hefyd wedi bod yn gweithio'n galed i gwblhau'r gwaith o gael gwared â rhafnwydd y môr sydd wedi ymledu.

Mae'r holl waith prosiect hwn yn rhan o ystod uchelgeisiol o gamau gweithredu i adfywio twyni tywod ledled Cymru.

Mae partneriaid ym Mhartneriaeth Natur Sir Gaerfyrddin wedi bod yn rhan o **Brosiect Dyffryn Tywi**, a ariennir gan Gymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020. Mae hyn wedi edrych ar yr arferion rheoli tir yng nghanol Dyffryn Tywi a sut y gellir defnyddio arferion ffermio mwy traddodiadol i ofalu am y dirwedd mewn ffordd fwy cynaliadwy.

Bu **Menter ar gyfer Cadwraeth Natur Cymru** yn gweithio gyda thirfeddianwyr dolydd i roi cyngor ac arweiniad wedi'u teilwra ar sut i reoli eu cynefinoedd glaswelltir ar gyfer bywyd gwylt yn well. Hefyd, cafodd sawl un wair gwyrdd o ddolydd blodau gwylt yng **Ngardd Fotaneg Genedlaethol Cymru**.

Bu gwirfoddolwyr **Cadwraeth Glöynnod Byw** yn arolygu safleoedd yn y dyffryn am wyau'r brithribin brown. Roedd hyn yn cynnwys dod o hyd i 13 o wyau yn rhandiroedd cymunedol Dinefwr yn Llandeilo. Roedd yr **Ymddiriedolaeth Genedlaethol**, sy'n berchen ar safle'r rhandiroedd, ac sydd hefyd yn rhan o'r prosiect, yn falch iawn o glywed hyn. Mae'r Ymddiriedolaeth eisoes yn lleihau ei gwaith o reoli gwrychoedd o amgylch y rhandiroedd ac mae ei gwrychoedd caeau yn gymysgedd o rywogaethau, gan gynnwys y ddraenen ddu y mae'r glöyn byw yn dodwy ei wyau arni. Yn ddiweddar, mae'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol wedi cwblhau ffensio gwrychoedd ac wedi symud y ffensys allan i gynyddu'r lled o 3 i 10 metr. Gobeithio y gall rhywogaethau prysgwydd, fel y ddraenen ddu, ddechrau rhoi swmp i'r gwrychoedd hyn a darparu rhagor o gynhaliaeth i'r brithribin brown. Mae arolygon gan wirfoddolwyr yn y dyffryn wedi dod o hyd i wyau mewn lleoliadau nas cofnodwyd o'r blaen, felly mae hynny'n rhoi ychydig mwy o obaith i boblogaeth leol y brithribin brown.



Bylchau'n cael eu creu gan beiriannau yn y twyni ym Mhen-bre © Twyni Byw



Casglu hadau blodau gwylt yng Ngardd Fotaneg Genedlaethol Cymru

Cefnogodd cyllid **Partneriaeth Natur Leol Cymru** brosiect o dan arweiniad **Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt De a Gorllewin Cymru** i dreialu math newydd o ddull arolygu ar gyfer pathewod. Hyfforddodd Diana Clark, sef ecolegydd llawrydd, wirfoddolwyr dros ddwy sesiwn ynghylch defnyddio twneli tracio pathewod. Maent wedi cael canlyniadau da wrth eu defnyddio mewn rhai rhannau eraill o'r wlad. Os ydynt yn addas, efallai y byddant yn ddull arolygu mwy effeithiol, gan roi canlyniadau mewn amser byrrach, a hefyd mae'n weithgaredd nad oes angen trwydded ar ei gyfer. Bydd gwell dealltwriaeth o ddsbarthiad pathewod yn golygu y gallwn wneud rhagor dros y rhywogaeth hon sydd o dan fygythiad, boed yn rheolaeth benodol ar eu cyfer neu'n sicrhau nad yw eu gofod yn cael ei dresmasu drwy anwybodaeth o'u presenoldeb.

Daeth 11 o bobl i'r sesiynau hyfforddi (o Gyfoeth Naturiol Cymru, CSC, RSPB, Coed Cymru a gwirfoddolwyr o Ardd Fotaneg Genedlaethol Cymru, Pobl y Fforest, Grŵp Dolydd Sir Gaerfyrddin a thirfeddiannwr). Hefyd prynwyd setiau o dwneli gyda chyllid y prosiect, felly aeth pump o bobl â thwneli i safleoedd arolygu. Hyd yma mae'r canlyniadau wedi bod yn gymysg ond bydd y technegau'n cael eu mireinio wrth i wersi gael eu dysgu.

Defnyddiwyd cyllid **Lleoedd Lleol ar gyfer Natur** gan Lywodraeth Cymru i brynu dau fath o beiriant torri a chasglu i'w defnyddio gan dimau cynnal a chadw tiroedd y cyngor. Mae Tai, Eiddo ac Ystadau yn nodi safleoedd lle gellir llacio gwaith torri gwair, a chaiff y cynhyrchion eu casglu gyda'r nod o leihau maetholion yn y ddaear ac annog rhagor o rywogaethau blodeuol a fydd yn cefnogi pryfed peillio lleol.



Gwirfoddolwyr gwlyb yn cael eu hyfforddi i ddefnyddio twneli olion troed pathewod



Parc Howard yn ei flodau

Mae **Partneriaeth Gwiwerod Coch Canolbarth Cymru** wedi bod yn monitro'r gwiwerod coch lleol ers bron i 20 mlynedd bellach, ond ni fu erioed yn bosibl datblygu amcangyfrif da o'r boblogaeth. Yn y gorffennol, roedd y ffocws ar brofi bod gwiwerod coch, yn wir, yn dal i oroesi yma. Y gwiwerod coch yng nghanolbarth Cymru yw'r unig boblogaeth sydd ar ôl yng Nghymru nad yw wedi cael unrhyw gefnogaeth drwy ailgyflwyno. Mae hyn yn golygu ei bod yn hanfodol bwysig cadw llygad barcud ar y boblogaeth er mwyn sicrhau nad yw'n dirywio, ac i helpu i lywio ein gwaith cadwraeth yn y dyfodol. Mae'r prosiect Cochion Iach (a ariennir gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol a grantiau Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru/Treth Dirlenwi) yn dal gwiwerod ac yn cymryd samplau gwallt (o dan drwydded) a gaiff eu hanfon at Adran Fiowyddorau Prifysgol Abertawe i'w dadansoddi. Drwy edrych ar natur gysylltiedig unigolion, gallwn ddatblygu dealltwriaeth lawer cliriach o ddynmeg y boblogaeth sydd ar waith yma yng nghanolbarth Cymru. Os dangosir bod anifeiliaid o wahanol ardaloedd yn gysylltiedig, bydd yn rhoi rhyw syniad o symudiad a chysylltedd cynefinoedd neu, i'r gwrthwyneb, nad yw cysylltedd yn ddigon da a bod y gwiwerod mewn poblogaethau ynysig.



Gwiwer Goch yng nghoedwig Cwm Rhaeadr

Mae'r **prosiect Caru Natur Cymru** a ariennir gan Lywodraeth Cymru, yn ogystal â gwaith parhaus gyda Bwrdd Iechyd Bae Abertawe i reoli eu safleoedd i wella llesiant cleifion, staff, ymwelwyr a chymunedau lleol, hefyd wedi bod yn parhau â'i waith ar *Laswelltiroedd am Oes* – gan fesur amrywiaeth glaswelltiroedd gan ddefnyddio technegau meta-godio bar DNA o'r radd flaenaf yn yr Ardd i roi cyngor ynghylch rheoli safleoedd yn y dyfodol. Yn ogystal, mae *Planhigion ar gyfer Pobl* yn ceisio diogelu ein treftadaeth naturiol drwy ddiogelu ein planhigion sydd o dan y bygythiad mwyaf, gan gyfrannu at gadwraeth yn y fan a'r lle ac mewn mannau eraill. Roedd gwaith samplu'r haf yn cynnwys arolygon pridd ac arolygon llystyfiannol a phryfed peillio traddodiadol ar safleoedd ledled Cymru. Cymerwyd samplau pridd yn y gaeaf hefyd. Gallai codau bar DNA roi darlun llawer mwy cyflawn o fioamrywiaeth a byddant yn caniatáu i reolwyr tir gael gwell gwybodaeth yn y dyfodol.



Cysgodfan â tho gwyrdd wedi'i adeiladu gan brosiect Caru Natur Cymru

Nodwyd rhywogaethau planhigion allweddol ar gyfer cynefinoedd glaswelltir amrywiol a allai helpu i reoli o ran gwytnwch, ac mae Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru wedi casglu hadau a phennu'r ffyrdd gorau o ddefnyddio hadau o'r fath i greu ac i adfer glaswelltir. Mae gwirfoddolwyr yn allweddol i lwyddiant prosiect Caru Natur Cymru ac mae hyfforddiant ar eu cyfer yn rhan allweddol o waith y prosiect.

Mae gwaith **Cadwraeth Glöynnod Byw** yn y sir yn parhau i ganolbwyntio ar frithegion y gors a brithribinau brown. Yn sgil cyfyngiadau Covid, roedd arolygon gwirfoddolwyr a drefnwyd wedi'u cyfyngu i wirfoddolwyr unigol yn gynharach yn y flwyddyn. Fodd bynnag, cynhaliodd gwirfoddolwyr a drefnwyd arolygon o weoedd larfaol yn ddiweddarach yn y flwyddyn ar safleoedd ac, yn Sir Gaerfyrddin, canfuwyd gweoedd larfaol ar 14 o safleoedd (gan gynnwys 150, sef nifer rhyfeddol, ar safle ar ochr Sir Gaerfyrddin o Gwm-gors). Mae Cadwraeth Glöynnod Byw yn parhau i annog rheolaeth addas o'r rhostir sy'n weddill, gan gynnwys pori tymhorol ar ddwysedd isel gan wartheg a merlod ond mae defaid yn cael eu hosgoi gan eu bod yn niweidio'r cynefin.

Mae arolygon gan wirfoddolwyr yn yr hydref a'r gaeaf o wyau'r brithribin brown yn parhau ac mae contractwr yn rheoli cynefinoedd ar safleoedd allweddol yn y sir. Cefnogir hyn gan gyllid drwy brosiect **Lleoedd Lleol ar gyfer Natur Cymru**. Mae astudiaeth newydd gan Gadwraeth Glöynnod Byw yn dangos bod ystod brithribin brown yn ne-orllewin Cymru wedi mwy na haneru yn ystod y degawd diwethaf. Er mwyn helpu i wrthdroi'r dirywiad hwn, mae'n argymhell na ddylai gwrychoedd y ddraenen ddu, sy'n addas ar gyfer y glöyn byw hwn, gael eu torri'n flynyddol ond y dylid eu gadael heb eu torri o leiaf bob yn ail flwyddyn. Mae'r astudiaeth yn dangos mai tyddynnod yw prif lochesi'r glöyn byw erbyn hyn, sy'n goroesi ar hyn o bryd yn ne-orllewin Cymru. Dim ond drwy ymdrech gofnodi gwirfoddolwyr Cadwraeth Glöynnod Byw y dangoswyd dirywiad y rhywogaeth hon â blaenoriaeth.

Mae swyddog **Coed Cymru** yn Adain Gadwraeth y cyngor wedi trefnu neu gynghori ar waith rheoli coetiroedd ar bedwar o safleoedd y Cyngor Sir eleni, gan gynnwys gwaith diogelwch coed yng Nghronfa Ddŵr Cwmoernant yng Nghaerfyrddin, lle bu'n rhaid cwmpo coed ynn yr effeithiwyd arnynt gan glefyd coed ynn, ac ar Lwybr Dylan yn Nhalacharn a Chae Allt Blawdd yn Llanarthne, lle mae conwydd wedi'u cwmpo a'u disodli gan goed llydanddail brodorol. Gwnaed cais hefyd am drwydded cwmpo coed i gael gwared â chonwydd o gynefin rhostir yn Llyn Llech Owain. Mae cynlluniau Creu Coetir Glastir yn cael eu paratoi ar gyfer tri o safleoedd y Cyngor (yn Ffair-fach, yn Llandybïe ac yng Nghydweli) i'w plannu yn 2022/23 ac mae'r Adain Gadwraeth yn trafod gydag adrannau eraill y Cyngor i geisio nodi rhagor o safleoedd addas i blannu coed. Mae cynlluniau Creu Coetir Glastir hefyd wedi'u paratoi ar gyfer saith tiffeddiannwr preifat arall sy'n dod i gyfanswm o tua 15 hectar o goetir brodorol newydd. Mae Swyddog Coed Cymru hefyd wedi rhoi cyngor ar wahanol geisiadau cynllunio sy'n effeithio ar goetiroedd yn y sir ac mae'n cyfrannu at ddatblygu strategaeth goed newydd i'r Cyngor.



Gwirfoddolwyr Cadwraeth Glöynnod Byw



Rheoli clefyd coed ynn yng Nghronfa Ddŵr Cwmoernant

Â chefnogaeth **Llais y Goedwig**, mae **Ymddiriedolaeth Gadwraeth Pen-bre** yn helpu i reoli coedwig 978 Ha Cyfoeth Naturiol Cymru ym Mhen-bre a Phenybedd. Yn ogystal â chynnal rhwydwaith o safleoedd hamdden a llwybrau mynediad cyhoeddus yn ardal y coetir, mae Ymddiriedolaeth Gadwraeth Pen-bre yn darparu hyfforddiant mewn sgiliau coetir a defnyddio offer ar gyfer ei gwirfoddolwyr. Roedd Covid wedi cyfyngu ar yr hyn y gallai gwirfoddolwyr ei wneud ond, pan ganiatawyd hynny, roedd hyd at 13 o wirfoddolwyr rheolaidd (2020-21) yn gwneud gwaith cynnal a chadw a monitro ymarferol. Mae hyn yn cynnwys gwaith (o dan arweiniad Cyfoeth Naturiol Cymru a Chadwraeth Glöynnod Byw) i reoli cynefin ar gyfer y 32 rhywogaeth o loynnod byw a geir yn y goedwig.



Rheoli'r rhodfeydd ar gyfer gloynnod byw yng Nghoedwig Pen-bre

PROSIECTAU A ARIENNIR GAN GRANTIAU SY'N CAEL EU CYNNAL GAN BARTNERIAID YM MHARTNERIAETH NATUR SIR GAERFYRDDIN				
PROSIECT	CYLLIDWR	Y PRIF SEFYDLIAD	FFOCWS CYNEFIN/RHYWOGAETHAU	HYD Y PROSIECT
Prosiect Bioamrywiaeth Gwlyptiroedd y Mileniwm	Cronfa Bioamrywiaeth Dŵr Cymru	Ymddiriedolaeth Adar y Gwlyptir	Gwella rheolaeth cynefinoedd yn gynaliadwy. Rheoli Rhywogaethau Anfroedorol Goresgynnol - <i>Crassula helsii</i> gan ddefnyddio gwiddon microsgopig o'r enw <i>Acculus Crassulae</i> Canolfan Gwlyptir Llanelli Ymddiriedolaeth Adar y Gwlyptir www.wwt.org.uk/wetland-centres/llanelli	Wedi'i gwblhau, ond mae'r gwaith yn parhau i fonitro cyfrwng rheoli <i>Crassula</i>
Prosiect Morlynnoedd Llanelli	Cynllun Rheoli Cynaliadwy Cyfoeth Naturiol Cymru	Ymddiriedolaeth Adar y Gwlyptir	Gwella cynefinoedd gwlyptirol , ynsoedd a systemau rheoli lefel y dŵr yn y morlynnoedd yn Ymddiriedolaeth Adar y Gwlyptir Llanelli.	Wedi'i gwblhau ar ddiwedd 2021
Cysylltu'r Dreigiau	Cronfa Dreftadaeth y Loteri	Ymddiriedolaeth Cadwraeth Amffibiaid ac Ymlusgiaid	Adfer poblogaethau a chynefinoedd ymlusgiaid ac amffibiaid yn ne Cymru www.arc-trust.org/connecting-the-dragons	2019-2022
Cochion Iach	Cronfa Dreftadaeth y Loteri	YNDGC	Gwiwerod coch yng nghanolbarth Cymru https://midwalesredsquirrels.org/cy/	2019-2022
Prosiect Coedwigoedd Glaw Celtaidd Cymru	Cronfa LIFE yr UE.	Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (RSPB a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn Sir Gaerfyrddin)	Coetiroedd derw yn yr ucheldir https://www.eryri.llyw.cymru/looking-after/life-celtic-rainforests-project	Tan 2025
Twyni ar Symud	Cyllid LIFE yr UE a Chronfa Dreftadaeth y Loteri	Plantlife, CNC	Twyni tywod gan gynnwys twyni Bae Caerfyrddin Y prosiect - Twyni ar Symud	2019 tan fis Medi 2023
Prosiect Twyni Byw	Cyllid LIFE yr UE	CNC	Twyni tywod - gan gynnwys twyni Bae Caerfyrddin Cyfoeth Naturiol Cymru / Twyni Byw	Tan fis Rhagfyr 2022
Adfywio Cyforgorsydd Cymru	Cyllid LIFE yr UE	CNC	Cyforgorsydd yr iseldir <u>Gwarchodfa Natur Genedlaethol Carmel yn Sir Gaerfyrddin.</u> Cyfoeth Naturiol Cymru / Adfywio Cyforgorsydd Cymru	Tan fis Mawrth 2023

Cynllun Rheoli Cynaliadwy Mawndiroedd Cymru	Cynllun Rheoli Cynaliadwy Llywodraeth Cymru (cyllid yr UE)	Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri	Cyforgorsydd yr iseldir Prosiect Corsydd Sir Gaerfyrddin/Parc Gwledig Llyn Llech Owain Prosiect Mawndiroedd Cymru (Cynllun Rheoli Cynaliadwy) Rhaglen Mawndiroedd y DU yr Undeb Rhyngwladol dros Gadwraeth Natur (iucn-uk-peatlandprogramme.org)	2017-2020
Gweirgloddiau Gwych	Ariennir gan Lywodraeth Cymru/Plantlife /Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol	Plantlife Cymru	Prosiect partneriaeth ac ymgysylltu â'r gymuned i adfer gweirgloddiau	2019 - Rhagfyr 2022
Llais y Goedwig	Ariennir gan Lywodraeth Cymru/yr UE	Llais y Goedwig	Creu cysylltiadau newydd rhwng grwpiau coetir a thirfeddianwyr mewn sectorau cyhoeddus a phreifat ar draws Cymru wrth atgyfnerthu'r cysylltiadau presennol	
Partneriaethau Natur Lleol Cymru	Ariennir gan Lywodraeth Cymru/yr UE	Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru	Prosiect partneriaeth gyda'r nod o wneud gwahaniaeth cynaliadwy, tymor hir i adfer natur drwy weithredu cydlynol a chydweithredol. Mae cyllid blynyddol i brosiectau wedi cefnogi gwaith prosiect pwysig gan bartneriaid Partneriaeth Natur Sir Gaerfyrddin – gweler adroddiadau blynyddol Partneriaethau Natur Lleol Cymru - Hafan (http://lnp.cymru/Hafan)	2019-2022
Natur am Byth	Ariennir gan Lywodraeth Cymru/yr UE	CNC	Prosiect i sefydlu ac i ddatblygu prosiect partneriaeth i adfer nifer o rywogaethau dan fygythiad ar draws Cymru. Cyfoeth Naturiol Cymru / Natur am byth! Adfer rhywogaethau dan fygythiad yng Nghymru	Cam 1: Medi 2021 tan Chwefror 2023 Cam 2: Cyflwyno ym mis Mawrth 2023 Cam 3: Mis Medi 2023 tan fis Medi 2027
Rhwydwaith Ecologol Gwydn Cymru	Ariennir gan Lywodraeth Cymru/yr UE	Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru	Edrych ar reoli Rhywogaethau Estron Goresgynnol ledled Cymru Rhwydwaith Ecologol Gwydn Cymru (WaREN) Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru	Tan fis Mawrth 2023
Caru Natur Cymru	Ariennir gan Lywodraeth Cymru/yr UE	Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru	Prosiect Cymru gyfan gan ymgysylltu â'r cyhoedd i helpu pobl i gysylltu â'u hamgylchedd naturiol, a gwella 'seilwaith	2019-2022

			gwyRDD' lle gall pobl elwa fwyaf ohono. Caru Natur Cymru - Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru	
Cysylltu Seilwaith GwyRDD – Y de-orllewin	Galluogi Adnoddau Naturiol a Llesiant	o dan arweiniad Castell-nedd Port Talbot ond mae'n cynnwys CCS a CSC a Chwmaman	Prosiect partneriaeth i ddarparu 'seilwaith gwyRDD' er budd cymunedau lleol a'u hamgylchedd naturiol	2021-2023
Y Ddôl Fawr, Parc yr Esgob, Abergwili	Ariennir gan Lywodraeth Cymru/yr UE a Threth Dirlenwi	Ymddiriedolaeth Drws i'r Dyffryn	Mae'n cynnwys rheoli'n well ei 9 erw o gynefin dôl gorlifdir Dyffryn Tywi. Drws i'r Dyffryn ym Mharc yr Esgob – Abergwili ger Caerfyrddin	
Parc yr Esgob, Abergwili	Cronfa 'Lleoedd Lleol ar gyfer Natur' Llywodraeth Cymru a Chronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol	Ymddiriedolaeth Drws i'r Dyffryn	Gerddi newydd sy'n addas ar gyfer bywyd gwyllt Mae gerddi newydd sy'n addas ar gyfer bywyd gwyllt yn dod at ei gilydd y mis hwn ym Mharc yr Esgob, Abergwili, Sir Gaerfyrddin – Drws i'r Dyffryn ym Mharc yr Esgob	2020-2021
Dyffryn Tywi	Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru - Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020, a ariennir gan Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig a Llywodraeth Cymru	Prosiect Dyffryn Tywi	Mae'n canolbwyntio ar dirwedd canol Dyffryn Tywi rhwng Llandeilo a Chaerfyrddin Cartref Dyffryn Tywi	Tan ddiwedd Ionawr 2022
Rhwydweithiau Natur – Llyn Llech Owain	Rhwydweithiau Natur CDL - yn ceisio cryfhau gwytnwch rhwydwaith Cymru o droedd a safleoedd morol sydd wedi'u hamddiffyn	Cyngor Sir Caerfyrddin	Mae grant Rhwydweithiau Natur yn cefnogi'r gwaith o adfer rhostir sych a gwlyb yn Ardal Cadwraeth Arbennig Cernydd Carmel yn y parc gwledig ac o'i hamgylch. Bydd defnyddio merlod mynydd Cymreig i bori yn help mawr gyda'r gwaith adfer hwn.	2021-22

Lleoedd Lleol ar gyfer Natur	Llywodraeth Cymru	Cyngor Sir Caerfyrddin	Defnyddio ffust robotig a pheiriannau torri a chasglu ar gyfer adfer safleoedd glaswelltir.	2019-2022
4 Afon LIFE	Yr UE a Llywodraeth Cymru	CNC	Bydd yn mynd i'r afael â phwysau lluosog sy'n effeithio ar bedair afon Ardal Cadwraeth Arbennig yn Ne Cymru (Cleddau, Teifi, Tywi ac Wysg), ac yn adfer iechyd ecosystemau mewn ardaloedd wedi'u targedu	2022-26
Chwilfa Fawr y Dolydd	-	Grŵp Dolydd Sir Gaerfyrddin	Prosiect cyfranogiad y cyhoedd i arolygu glaswelltir - yn seiliedig ar restr rhywogaethau glaswelltir tir isel y Cynllun Monitro Planhigion Cenedlaethol	Yn flynyddol
Adnabod eich Cymdogion	Llywodraeth Cymru	Menter ar gyfer Cadwraeth Natur Cymru	Dyffryn Aman – codi ymwybyddiaeth o fywyd gwylt Prosiectau – Menter ar gyfer Cadwraeth Natur Cymru	
Adfer glaswelltir corsio	Cyllid Partneriaeth Natur Leol Cymru (LIC)	Menter ar gyfer Cadwraeth Natur Cymru/Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog	Rheoli ac adfer glaswelltir corsio yn Nyffryn Aman Prosiectau – Menter ar gyfer Cadwraeth Natur Cymru	2020-21
Adfer Rhywogaethau a Chynefinoedd yn Nyffryn Aman	Lleoedd Lleol ar gyfer Natur (LPfN) - Llywodraeth Cymru	Menter ar gyfer Cadwraeth Natur Cymru	Adfer glaswelltir corsio Prosiectau – Menter ar gyfer Cadwraeth Natur Cymru	2019-20
Prosiect Tyfu'r Dyfodol	Llywodraeth Cymru/UE	Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru	Hyrwyddo garddwriaeth Cymru, planhigion ar gyfer pryfed peillio, diogelu bywyd gwylt a rhinweddau tyfu planhigion ar gyfer bwyd, hwyl, iechyd a llesiant. Tyfu'r Dyfodol - Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru	Mehafin 2017 - Mehafin 2022
Banc Hadau Cenedlaethol Cymru	Prosiect Tyfu'r Dyfodol	Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru	Prosiect Cymru gyfan i gasglu ac i warchod hadau planhigion brodorol o Gymru Gwarchod planhigion Cymreig brodorol drwy fancio hadau - Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru	